**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Cynllunio**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **10 Rhagfyr 2014**

**Swyddog Arweiniol:** **Graham Boase**

**Awdur yr Adroddiad:** **Ian Weaver**

**Teitl:** **Protocol ar gyfer Paneli Archwilio Safle**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

I ystyried adroddiad gan y Rheolwr Datblygu (isod) yn cynnwys protocol diwygiedig ar gyfer cynnal Paneli Archwilio Safle.

Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfres ddiwygiedig o ganllawiau ar gyfer cynnal Paneli Archwilio Safle i'w mabwysiadu gan y Pwyllgor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cafodd canllawiau presennol Paneli Archwilio Safle eu diwygio ym mis Mehefin 2014.

Mae swyddogion wedi ystyried yr adborth gan yr Aelodau ers hynny, ar eiriad y protocol.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn adolygu agweddau ar swyddogaeth gynllunio Awdurdod Lleol, a rhagwelir bod argymhellion ar gyfer newid aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio a phrosesau cysylltiedig ar fin digwydd. Am y rheswm hwn, mae Swyddogion yn teimlo y byddai'n briodol awgrymu mabwysiadu'r canllawiau panel safle diwygiedig am gyfnod prawf pellach o 6 mis, hyd nes y ceir datblygiadau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu mabwysiadu'r canllawiau diwygiedig am gyfnod pellach o 6 mis.